Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Astudiaethau achos

# Gwlâu Blodau Cyfeillion yr Happy Valley

Mae Happy Valley yn barc sydd wedi'i leoli ar Ben y Gogarth, Llandudno, Conwy. Mae Cyfeillion Happy Valley (www.facebook.com) yn grŵp o breswylwyr lleol sy'n gwirfoddoli i wella'r parc sy'n lleoliad hamddena gwerthfawr i breswylwyr ac ymwelwyr.

I gefnogi pryfed peillio, crëodd y Ffrindiau brosiect o'r enw Gwlâu Blodau Happy Valley, dderbyniodd wobr Caru Gwenyn yn 2018. Roedd gwaith y prosiect yn cynnwys ehangu amrywiaeth y planhigion yn eu gwlâu blodau i wenyn a pili pala i gynyddu hyd y tymor blodeuo a'r amrywiaeth o bryfed fyddai'n cael eu denu. Nid oes unrhyw blaladdwyr yn cael eu defnyddio ar y gwlâu blodau. Crëwyd 'morlyn pryfed hofran' hefyd a gwesty pryfed.





Bob mis, maent yn tynnu lluniau gan gofnodi planhigion mewn blodau a phryfed sy'n ymweld.

Caiff y rhain eu dosbarthu ar eu rhestrau postio ac maent yn rhoi crynodeb ar hysbysfwrdd y parc. Gyda chymorth Cyngor Conwy, maent wedi cynhyrchu taflen ddwyieithog 'Plannu ar gyfer pryfed peillio' sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld â'r parc.

Gyda chymorth Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, maent wedi darparu gwybodaeth ddwyieithiog ar arddio ar gyfer cacwn.





Credyd llun: Christine Jones

Maent yn cydweithio â Wardeniaid Parc Pen y Gogarth i arwain taith gacwn.

Maent hefyd yn rhan o Llandudno mewn Blodau ac yn cofnodi eu gweithgareddau i'r Pwyllgor Blodeuo.

Maent yn parhau i ddatblygu eu gwlâu blodau a rhoi cyhoeddusrwydd i arddio cyfeillgar i bryfed peillio.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40090